**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 22 Mai 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | E T Kirchner | W G Lewis |

**Hefyd yn Bresennol**

Louise Gibbard — Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wy): A M Day a/ac K M Griffiths

---

1 **Cadarnhau Cynullydd**

Cadarnhawyd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams fel Cynullydd y Panel Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer 2023-24.

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

4 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

5 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 6 Adroddiad Blynyddol am Gwynion i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2021-22

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a Sarah Lackenby, Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar gyfer 2021-22, gan nodi bod y gwasanaeth yn cymryd cwynion o ddifrif ac fe'u defnyddir fel cyfleoedd dysgu i lywio arfer da wrth symud ymlaen.

Hysbyswyd y Panel fod effaith COVID yn dal i gael ei theimlo gyda materion sy'n ymwneud â phwysau ar staff a recriwtio, salwch a chymhlethdod cynyddol yr achosion yr ymdrinnir â hwy. Er gwaethaf hyn roedd gostyngiad yn nifer y cwynion cam un yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac nid oedd llawer yn symud ymlaen i gam dau. Hefyd, derbyniodd y gwasanaeth 100 o sylwadau o ganmoliaeth. Roedd y Panel yn teimlo bod hyn yn gadarnhaol.

## 7 Cyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol / Ymrwymiadau Polisi mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal yn bresennol i friffio'r Panel ar y mater hwn a chrynhoi'r gweithgarwch a wnaed a'r cynnydd a wnaed.

Pwyntiau Trafod:

- Teimlai'r Panel fod yr adroddiad yn gynhwysfawr ac yn gyflawn.
- Dywedodd y Panel mai gweithwyr iechyd yw'r bobl gyntaf i weld sefyllfa teuluoedd, felly mae'n bwysig parhau i rannu'r neges, os ydynt yn gweld unrhyw broblemau, dylent eu codi cyn gynted â phosib gan mai dyma'r ymyriad cynharaf ac yna mae gan ysgolion ran i'w chwarae. Roedd Aelodau'r Cabinet yn teimlo bod ganddynt berthynas dda iawn ag Iechyd ac mae llawer o'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo mewn canolfannau cymorth cynnar.
- Mae'r Panel yn weddol hapus gyda'r ffordd y mae'r adran yn mynd. Bydd y Panel yn edrych ar adroddiadau perfformiad yn ofalus iawn a bydd yn aros am adroddiad gan y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddinesig hon.

## 8 Adolygiad Panel y Flwyddyn 2022-23

Adolygodd Aelodau'r Panel y flwyddyn 2022/23 ar y Panel Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gwnaeth y Cynullydd y sylwadau canlynol:

- Roedd mis Hydref yn gyfarfod rhagarweiniol ac yn edrych ar rôl y Panel. Nid oedd unrhyw aelodau newydd ar y Panel y llynedd. Mae angen mwy o aelodau. Gofynnodd Aelod y Cabinet i aelodau ei phlaid a oes ganddynt ddiddordeb mewn ymuno.

- Ym mis Tachwedd edrychwyd ar ofal preswyl a bydd am ddod yn ôl at hynny eleni.

- Ym mis Rhagfyr cafwyd adroddiad monitro perfformiad cyntaf gan System Wybodaeth Gofal Cymunedol newydd Cymru (WCCIS) ac mae'r Panel yn falch o weld hyn yn cael ei ddatblygu. Edrychodd hefyd ar ddiogelu rhanbarthol, roedd gan y Panel rai pryderon o ran diogelu rhanbarthol yn hytrach na'r hyn a oedd yn arfer bod yn Abertawe.

- Ym mis Ionawr edrychwyd ar Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ac roedd y Panel yn gallu gweld yr hyn a oedd yn digwydd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

- Roedd mis Chwefror yn gyfarfod ar y cyd gyda'r Panel Gwasanaethau i Oedolion i edrych ar y gyllideb. Roedd y Panel yn gymharol falch bod y gyllideb wedi cynyddu. Mae'r Panel yn awyddus i weld sut mae adolygiadau comisiynu yn mynd rhagddynt ac mae angen iddynt weld amserlen ar gyfer hyn a chyflwyno adroddiad ar hyn i'r Panel yn y dyfodol agos.

- Ym mis Mawrth edrychwyd ar Gymorth i Ofalwyr, ar y cyd â'r Gwasanaethau i Oedolion. Edrychwyd hefyd ar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n rhywbeth y bydd angen i'r Panel barhau i edrych arno.

- Bydd Rhaglen Waith 2023-24 yn cael ei drafftio a'i chylchredeg i'r Aelodau. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chytuno yn y cyfarfod nesaf ar 20 Mehefin 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm